# Cyflymu'r broses o **arloesi** ym maes iechyd a gofal cymdeithasol.

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

# Yn syml, rydym yn paru anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ag arloesedd er mwyn sbarduno cynnydd, er mwyn trigolion Cymru.

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**



## Pwy ydym ni

**Rydym yma i helpu i sicrhau arloesi ysbrydoledig yn y gwyddorau bywyd ar y rheng flaen ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.**

Yma yn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, ni yw'r cysylltwyr, yr hwyluswyr a'r gyrwyr. Rydym yn gweithredu fel rhyngwyneb deinamig sy'n cefnogi diwydiant, sefydliadau iechyd a gofal cymdeithasol a sefydliadau academaidd sy'n rhannu ein nod: defnyddio technolegau ac atebion newydd i atal a rheoli iechyd gwael.



Cari-Anne Quinn, Prif Weithredwr



Mae ein deialog agored â darparwyr iechyd a gofal yn golygu bod gennym ni ddealltwriaeth ddofn o'r heriau a'r blaenoriaethau pwysicaf sy'n wynebu'r sector.

Hefyd, mae ein perthynas â sefydliadau academaidd allweddol yn golygu ei bod hi'n symlach cael mynediad at brofion ac ymchwil.

Rydym yn cyd-fynd yn agos ag agenda polisi Llywodraeth Cymru hefyd. Mae ei rhaglenni ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol yn uchelgeisiol, ac yn sbarduno trawsnewid i system iechyd, gofal a lles integredig sy'n canolbwyntio ar atal, ymyrraeth gynnar a gofal yn nes at y cartref.

**Mae newid systemig parhaus yn hanfodol er mwyn cyflawni'r uchelgeisiau hyn.**

Ein rôl ni yw cefnogi'r newid hwn, gan helpu i sbarduno atebion blaengar i'r rhannau o'n system iechyd a gofal cymdeithasol lle byddant yn cael yr effaith fwyaf – a chreu manteision economaidd-gymdeithasol cynaliadwy dros amser.



# Beth mae hyn i gyd yn ei olygu?

Wel, pan fydd arloeswyr yn cysylltu â ni, mae'n golygu y gallwn eu helpu i siapio eu datblygiadau arloesol i'w gwneud yn fwyaf perthnasol i weithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol neu ddefnyddwyr eraill. Byddwn yn mynd ag anghenion a blaenoriaethau rheng flaen at arloeswyr er mwyn iddynt gael eu datblygu'n benodol hefyd. Rydym yn dod â'r holl grwpiau hyn at ei gilydd: i wrando, i rannu ac i archwilio.


**Yn syml, rydym yn paru anghenion iechyd a gofal cymdeithasol ag arloesedd er mwyn sbarduno cynnydd, er mwyn trigolion Cymru.**

> “Mae ein harweinydd prosiect dynodedig wedi bod yn amhrisiadwy i ni. Mae hi wedi darparu cefnogaeth rhaglen hanfodol ynghyd â rhoi cyfeiriad a strwythur clir i ni. Mae hi hefyd wedi gweithio gyda ni i ddatblygu cynllun clir ar gyfer mabwysiadu ac i'n sbarduno i ystyried gofynion cyflwyno ehangach.”
>
> **Catherine Davies** a **Catrin Codd**, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe



# Beth rydym yn ei wneud

## Gall arloesi ym maes iechyd a gofal cymdeithasol fod yn daith gymhleth a heriol ac mae pob syniad a sefyllfa yn unigryw. Rydym yn deall hyn.



Dros amser rydym wedi datblygu prosesau effeithiol sy'n helpu ein partneriaid i oresgyn yr heriau sydd, yn anochel, yn datblygu'n barhaus ac sy'n rhan o bob taith arloesi. Profiad helaeth a chefnogaeth ar gyfer eich gwaith arloesol, hyd at - ac yn cynnwys - ei fabwysiadu gan y defnyddiwr terfynol.

Yn y pen draw, rydym yma i helpu i sbarduno gwell iechyd a gofal cymdeithasol i bobl Cymru – cefnogi arloesedd er mwyn iddo gael ei ddefnyddio ar y rheng flaen yw ein prif bwyslais. Mae hyn hefyd yn trosi'n dwf, yn fuddsoddiad ac yn swyddi i'r sefydliadau arloesol sy'n dewis gweithio yma.

Gallwn eich helpu, boed hynny gyda chymorth ac arweiniad ariannol, rheoli prosiectau, datblygu partneriaethau, neu unrhyw un o'n gwasanaethau cymorth penodol eraill.

## Rydym yma i helpu i wireddu hyn.

“Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn dîm amlochrog sy'n fedrus iawn o ran cael gafael ar y bobl iawn, ar yr adeg iawn. Mae'n nhw bob amser yn gwneud yr hyn maen nhw'n ei ddweud, ac mae'r gwaith partneriaeth rydym wedi'i sefydlu dros y flwyddyn ddiwethaf wedi bod yn allweddol i'n llwyddiant. Heb Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru, ni fyddem yn y sefyllfa hon heddiw. Yn gyffredinnol, maent yn ddylanwadol, yn gefnogol ac yn frwdfrydig a dyma sy'n gyrru'r arloesedd ymlaen i'r lle mae ei angen fwyaf.”

**Tandeep Gill**, Uwch Reolwr Datblygu Busnes, PainChek UK

# Pam Cymru?

**Mae Cymru'n lleoliad deniadol ar gyfer datblygu a rhoi arloesedd gwyddorau bywyd ar waith ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Mae ein poblogaeth o dair miliwn yn golygu y gall ein dull gweithredu fod yn ystwyth ond mae'n ein galluogi i ddangos canlyniadau cadarn yn gyflym, o'i gymharu â'r norm yn y diwydiant.**







Mae ein diwylliant blaengar o gefnogi arloesi – drwy sefydliadau academaidd hynod ymrwymedig, cyngor, seilwaith, cysylltiadau a chyllid – hefyd yn gwneud Cymru'n lleoliad gwych i sefydliadau gwyddorau bywyd sy'n chwilio am gyfle i roi eu harloesedd ar waith.

Rydym yma i helpu'r sefydliadau hynny i fanteisio i'r eithaf ar y rhinweddau hyn rydym yn eu rhannu. Ein rôl yw helpu i ddatblygu a mabwysiadu arloesedd yn y gwyddorau bywyd sy'n canolbwyntio ar anghenion ym maes iechyd a gofal cymdeithasol, er lles a ffyniant pobl Cymru.


# Sut rydym yn sbarduno arloesedd

Rydym yn gweithio ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan gysylltu'r byd academaidd, diwydiant a'r rheini ar y rheng flaen sy'n defnyddio unrhyw arloesi yn y pen draw.

Efallai eich bod yn glinigwr sydd â nod uchelgeisiol o fynd i'r afael â her. Neu'n arloeswr sy'n barod am bartneriaeth iechyd neu ofal cymdeithasol. Efallai eich bod yn sefydliad gwyddorau bywyd rhyngwladol sy'n chwilio am farchnad gyntaf hyfyw ar gyfer cynnyrch penodol. Beth bynnag yw eich sefyllfa, os ydych chi'n gobeithio gweithio yn ecosystem iechyd a gofal cymdeithasol Cymru, gallwn ni eich cefnogi chi.

Mae ein hagenda gyffredinol yn cynnwys atal a gofal yn agos at y cartref. Drwy ddod â'r bobl a'r arbenigedd cywir at ei gilydd, gellir cyflymu'r gwaith o drawsnewid gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

> “Roeddwn i'n ffodus o gael fy newis i gymryd rhan yn rhaglen Cyflymu Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn 2020 a dydw i ddim wedi edrych yn ôl. Mae'r manteision yn bellgyrhaeddol, o werthuso enillion cymdeithasol ar fuddsoddiad, i ddatblygu busnes a datblygiad personol, fe wnes i ddysgu, addasu a thyfu yn ddi-stop.
>
> Mae Cyflymu yn gam gwych ar gyfer datblygu busnes, ac yn ffordd o brofi, gwerthuso a dadansoddi gwahanol safbwyntiau.”
>
> **Hayley Wheeler**, Awdur, Hyfforddwr Grymuso Emosiynol a mentor busnes



## Rydym yn canolbwyntio ar ddau faes:

### Digidol

Drwy fabwysiadu atebion digidol, gallwn wella canlyniadau cleifion a phrofiad defnyddwyr. Dyna pam mai deallusrwydd artiffisial, data mawr a dadansoddeg rhagfynegol yw rhai o'r prif feysydd rydym yn canolbwyntio arnynt.

### Meddygaeth Fanwl

Mae datblygiadau ym maes geneteg yn caniatáu i glinigwyr deilwra cynlluniau triniaeth yn llawer mwy manwl a darparu'r profion neu'r triniaethau priodol i'r unigolion cywir ar yr adeg iawn. Mae hyn yn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol, ac yn cyflymu llwybr y claf yn sylweddol. Rydym yn canolbwyntio ar ddiagnosteg gynnar, genomeg a therapïau uwch.

# Rydym yn gweithio ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol, gan gysylltu'r byd academaidd, diwydiant a'r rheini ar y rheng flaen sy'n defnyddio unrhyw arloesi yn y pen draw.





# Rhwydweithiau

EIDC
Ecosystem Iechyd Digidol Cymru

**Mae Ecosystem Iechyd Digidol Cymru yn cysylltu'r diwydiant, clinigwyr, llunwyr polisïau, academyddion, arloeswyr a chyllidwyr er mwyn creu amgylchedd arloesi digidol yn y maes gofal iechyd yng Nghymru. Yn y pen draw, mae hyn yn ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach mabwysiadu technoleg gofal iechyd ddigidol yng Nghymru.**

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma:

Rydym hefyd yn cefnogi rhwydweithiau eraill gan gynnwys deallusrwydd artiffisial, realiti estynedig, canser ac imiwnotherapïau.



*Mae Ecosystem Iechyd Digidol Cymru yn gydweithrediad rhwng Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru ac Iechyd a Gofal Digidol Cymru.

# Sut rydym yn cefnogi arloesedd

Rydym yn cefnogi teithiau arloesi o bob math a maint, mewn sawl ffordd amrywiol. Mae pob prosiect yn wahanol, felly rydym yn gwybod efallai y bydd angen rhai pethau arnoch chi ac na fydd angen pethau eraill arnoch. Ond dyma rai o'r ffyrdd rydym yn helpu ein partneriaid arloesi.

## Datblygu a hwyluso partneriaethau

Mae gennym gysylltiadau eang a sefydledig sy'n helpu'r broses o rannu gwybodaeth a syniadau, codi ymwybyddiaeth o anghenion a chanfod cyfleoedd i ddatblygu atebion ar y cyd. Mae hyn yn cefnogi gwerthuso, profi'r farchnad, llwybrau i'r farchnad a mabwysiadu.  Mae ein digwyddiadau a'n rhwydweithiau hefyd yn ei gwneud hi'n haws ac yn gyflymach i ffurfio partneriaethau a mabwysiadu arloesedd yng Nghymru.

## Rheoli prosiectau

Gallwn eich helpu gyda'r adnoddau y bydd eu hangen arnoch i symud ymlaen, hyd yn oed gyda'r gwaith arloesi mwyaf cymhleth, ar hyd y daith ddatblygu - nes bydd y defnyddiwr terfynol yn ei fabwysiadu.

## Gwybodaeth a chyngor

Rydym yn cynnig adroddiadau gwybodaeth am y sector a sganiau o'r gorwel, asesiadau arloesi a chymorth i ddatblygu achosion busnes sydd â'r nod o fabwysiadu atebion arloesi newydd yng Nghymru. Gallwn hefyd eich cyfeirio at wasanaethau y gallai fod eu hangen arnoch.

"Mae Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru wedi helpu i ddatblygu ein darpariaeth masg wyneb yn ystod y pandemig ac wedi ein helpu ni i ddod â'r cynnyrch hynny i'r farchnad. Fe wnaethon nhw ein rhoi mewn cysylltiad â sefydliadau a wnaeth ein helpu ni i weithio drwy'r fframweithiau rheoleiddio a'n cyflwyno ni i bartneriaid profi allweddol.

Fel busnes, rydym wedi elwa'n uniongyrchol o'r cymorth parhaus a ddarperir gan y tîm, sydd wedi cynnwys cymorth rhaglenni (Cyflymu drwy Brifysgol Abertawe), cyfathrebu, ymgysylltu â'r cyfryngau a datblygu cynulleidfaoedd ar gyfryngau cymdeithasol.

Yn hollbwysig, mae'r tîm yn parhau i'n cefnogi gyda'n mentrau newydd ac unrhyw rwystrau rydym yn eu hwynebu."

**Anil Kant**, Prif Swyddog Gweithredol i Hardshell



## Cymorth ariannol

Rydym yma i'ch rhoi mewn cysylltiad â phartneriaid addas ar gyfer cynigion cydweithredol, gan eich arwain tuag at raglenni cyllido sy'n cyd-fynd â'ch anghenion. Rydym yn sefydlu cysylltiadau â buddsoddwyr ac asiantaethau cyllido, ac yn cynnig adnoddau a gwybodaeth am ddim.

## Cyfathrebu

Mae hyrwyddo yn rhan bwysig o bob llwyddiant – a gallwn ni eich helpu chi i godi proffil eich prosiect o'r cychwyn cyntaf er mwyn iddo gael y sylw y mae'n ei haeddu.



# Cysylltwch â ni!

Rydym yma i helpu i sbarduno trawsnewid ar draws y system. Os ydych chi'n meddwl y byddech chi'n elwa o'r math o gymorth rydym yn ei gynnig, yna hoffem glywed gennych chi.

Dyma sut gallwch chi gysylltu â ni:

lshubwales.com/cy/innovation-enquiry-form

helo@hwbgbcymru.com

029 2046 7030

# Accelerating health and social care innovation.

Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru
Life Sciences Hub Wales

# Put simply, we match health and social care needs with innovation, to drive progress that benefits the people of Wales.

Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**

# Who we are

**We're here to help propel inspiring life science innovations into frontline use in health and social care in Wales.**

At Life Sciences Hub Wales, we're connectors, facilitators and drivers. We act as a dynamic interface that supports industry, health and social care organisations and academic institutions who share our goal: using new technologies and solutions to prevent and manage poor health.



Cari-Anne Quinn, CEO



Our open dialogue with health and care providers means we have deep understanding of the most critical challenges and priorities facing the sector.

And our relationships with key academic institutions mean access to testing and research is made simpler.

We're closely aligned with Welsh Government's policy agenda, too. Their programmes for health and social care are ambitious, driving transformation to an integrated health, care and wellness system with a focus on prevention, early intervention and care closer to home.

**Ongoing systemic change is vital for meeting these ambitions.**

Our role is to support this change, helping drive progressive ideas to the parts of our health and social care system where they'll have the biggest impact – and create sustainable socio-economic benefits over time.



# What does all of this mean?

Well, it means when innovators approach us, we can help them shape their innovations to make them most relevant to health and social care professionals or other end users. And we'll take frontline needs and priorities to innovators for dedicated development, too. We bring all of these groups to the table: to listen, share and explore.

**Put simply, we match health and social care needs with innovation, to drive progress that benefits the people of Wales.**

"Our designated project lead has been invaluable to us. Not only has she provided essential programme support but has also given us clear direction and structure. She has also worked with us to develop a clear plan for adoption and prompting us to consider wider roll out requirements."

**Catherine Davies** and **Catrin Codd**, Swansea Bay University Health Board



# What we do

## Innovation in health and social care can be a complex and challenging journey and every idea and situation is unique. We understand this.



Over time, we've developed effective processes that help our partners overcome the continually evolving challenges that are inevitably part of every innovation journey. Extensive experience and support for your innovation, right up to - and including - end user adoption.

Ultimately, we're here to help drive better health and social care for the people of Wales – and supporting innovation to get it into frontline use is our central focus. This also translates into growth, investment and jobs for the ground-breaking organisations that choose to work here.

Whether it's funding support and guidance, project management, partnership development, or any of our other dedicated support services, we can help you.

## We're here to help make it happen.

“Life Sciences Hub Wales are a multi-faceted team who are highly skilled in accessing the right people, at the right time. What they say is what they do, and the partnership working we have established over the last year has been central to our success. Without Life Sciences Hub Wales, we would not be where we are today. Overall, they are influential, supportive, and passionate and this is what drives the innovation through to where it is most needed.”

**Tandeep Gill**, Senior Business Development Manager, PainChek UK

# Why Wales?

**Wales is a compelling location for developing and applying life science innovation in health and social care. Our three million strong population means our approach can be agile but enables us to show robust outcomes quickly, compared with industry norms.**









Our progressive culture of support for innovation – through highly engaged academic institutions, advice, infrastructure, connections, and funding – also makes Wales a great location for life science organisations looking for a foothold to get their innovation up and running.

We're here to help those organisations make the most of these combined qualities. Our role is to drive the development and adoption of needs-focused life science innovation in health and social care, for the well-being and prosperity of the people of Wales.

# How we drive innovation

We work across health and social care, connecting academia, industry and those on the frontline who are ultimately the end users of any innovation.


You might be a clinician with an ambitious goal to tackle a challenge. Or an innovator ready for a health or social care partnership. Perhaps you're a multi-national life science organisation looking for a viable initial market for a particular product. Whatever your scenario, if you're hoping to work within Wales' health and social care ecosystem, we can support you.

Our overarching agenda includes prevention and care close to home. By bringing the right people and expertise together, transformation of health and social care services can be accelerated.

"I was fortunate to be chosen to take part in Life Science Hub Wales Accelerate programme in 2020 and I haven't looked back. The benefits are far reaching, from the SROI evaluation to business and personal development, it was non-stop learning, adapting and growing.

Accelerate is a great steppingstone for business development, a way of testing, evaluating and analysing from different perspectives."

**Hayley Wheeler**, Author, Emotional Empowerment Coach & Business Mentor




## We have two areas of focus:

### Digital

By adopting digital solutions, we can improve both patient outcomes and user experience. That's why artificial intelligence, big data and predictive analytics are some of our key focus areas.

### Precision Medicine

Advances in genetics allows clinicians to tailor treatment plans far more precisely and deliver the appropriate tests or treatments to the correct individuals at the right time. This enhances overall efficiency, effectiveness, and significantly speeds up the patient pathway. We focus on early diagnostics, genomics and advanced therapies.

**We work right across health and social care, connecting academia, industry and those on the frontline who are ultimately the end users of any innovation.**





# Networks

DHEW
Digital Health Ecosystem Wales

Digital Health Ecosystem Wales* programme brings together industry, clinicians, policy makers, academics, innovators, and funders to create an environment of digital innovation in Welsh healthcare. Ultimately, this makes it easier and faster to adopt digital healthcare technology in Wales.

You can find out more, here:

We also support other networks including artificial intelligence, augmented reality, cancer and immunotherapies.



*Digital Health Ecosystem Wales is a collaboration between Life Sciences Hub Wales and Digital Health and Care Wales.

# How we support innovation

We support innovation journeys of all shapes and sizes, in many diverse ways. Every project is different, so we know you may need certain things and not others. But here are some of the ways we help our innovation partners.

## Partnership development and facilitation

We have broad and well established connections helping knowledge and idea sharing, raising awareness of needs and identifying opportunities for codeveloping solutions. This supports evaluation, market testing, routes to market and adoption. Our events and networks also make it easier and faster to partner and adopt innovation in Wales.

## Project management

We can help you with the resources you'll need to move even the most complex innovations along the development journey, right up to end user adoption.

## Knowledge and advice

We offer sector intelligence reports and horizon scans, innovation assessments and support for development of business cases aimed at the adoption of new innovative solutions in Wales. We can also signpost you to services you may need.

"Life Sciences Hub Wales helped develop our facemask offering during the pandemic and supported us in bringing those products to market. They connected us with organisations who helped us work through the regulatory frameworks and introduced us to key testing partners.

As a business, we have directly benefited from the ongoing support provided by the team, which has included programme support (Accelerate via Swansea University) communications, media engagement and social media audience development.

Crucially, the team continues to support us with our new ventures and any barriers we were facing."

**Anil Kant**, Chief Executive Officer of Hardshell



## Funding support

We're here to connect you with suitable partners for collaborative bids, guiding you towards funding programmes that align with your needs. We establish links with investors and funding agencies, and offer free resources and information.

## Communication

Promotion is a big part of every success story – and we can help you raise the profile of your project right from the start to give it the attention it deserves.



# Get in touch!

We're here to help drive system-wide transformation. If you think you'd benefit from the kind of support we offer, then we want to hear from you.

You can get in touch by:


lshubwales.com/innovation-enquiry-form

hello@lshubwales.com

029 2046 7030